# CYNGOR CYMUNED LLANWINIO COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanwinio nos Fercher yr 2ail o Fedi 2026 am 8.00pm yn Neuadd Llanwinio.

**PRESENNOL**: Cynghowyr Huw James (Cadeirydd), Sarah Pask, Christopher Smoothy, Iori Saer, Dorian Lewis, Elgan Williams, Wyn Evans & Y Cynghorydd Sir Jean Lewis

**YMDDIHEURIADAU**: Dim

**CYMHERWYD Y COFNODION GAN Y CLERC**: Liza Jones

**2: COFNODION**: Roedd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 1af o Orffennaf 2026 wedi ei dosbarthu cyn y cyfarfod, fe'u derbyniwyd a'u cofnodi fel rhai cywir.

**3. DATGAN BUDD:** Dim

**4: MATERION YN CODI:**
Roedd gweithwyr y Cyngor Sir yn ymweld â'r cwlfert agor ger Blanffynnon ac roedd y Cynghorydd Sir wedi ymweld a'r safle gyda Archwilydd y Cyngor Sir ond nid oedd unrhyw waith atgyweirio wedi cael ei wneud hyd yn hyn.
Roedd y clerc wedi ebostio'r cyfreithiwr a oedd wedi ymddiheurio a nodi fod y gwaith bron a fod yn gyflawn. Byddai'r clerc yn cadw i ddilyn i fyny ar hyn.
Nid oedd y bont ger Rhydgoch wedi cael ei atgyweirio. Byddai'r clerc yn dilyn i fyny.
Roedd y clerc yn parhau i ymchwilio i mewn i gael offer casglu swbriel ac arwydd cyfeirio tuag at Eglwys St. Gwynno.
Nid oedd y sbwriel a oedd wedi cael ei adael yn anghyfreithlon ger Pwllrhedyn wedi cael ei gasglu a byddai'n cael ei ddilyn i fyny eto.

**5: GOHEBIAETH:**

**A** – Roedd Banc Lloydswedi gofyn am 'Strwythr y Cwmni' ermwyn cydymffurfio gyda rhgeolau Newydd. Roedd yr Archwilydd Mewnol Rosemarie Davies wedi bod digon caredig ag ebostio llythyr a oedd wedi cael ei ddanfon ymlaen i'r banc. Yn dilyn hyny roedd y Banc mofyn maylion llawn y Cynghorwyr. Casglwyd y wybodaeth yn y cyfarfod ac byddai'n cael ei ddanfon ymlaen i'r banc.
**B** – Roedd y clerc wedi cwblhau Ail-Adroddiad i'r Rheolwr Pensiynau.
**C-** Roedd Dŵr Cymru wedi gofyn am ganiatad i gael mynediad i'r tir a oedd Mr Jackson yn rhentu ar gyfer gwaith ail-osod pibellau dŵr Newydd ar gyfer cynllun Llanfyrnach. Rhoddwyd caniatad.
**CH** – Roedd Dŵr Cymru wedi cyfarfod gyda;'r clerc ar gaeau Blaenwauni archwilio y cyflenwad dŵr dan – Deddf Diwydiant Dŵr 1991 a Rheolau Cyflenwad Dŵr (ffitiadau dŵr) 1999. Roedd angen tynnu'r blaen oddi ar y tap dŵr yn nholiedau y dynion ermwyn cydymmffurfio.

**6: DERBYNIADAU:**
Wayleave – Dŵr Cymru - £36.12
Praesept – CSC - £2,000.00
Tyrbein gwynt GIlfach - £3,937.67
Llôg - £18.29

**7: BILIAU:**
Banc Lloyds - £4.67 a £4.25 (talwyd d/u)
Charlie Jackson – torri glaswellt - £50.00 x 2
D H & J M James – Torri cloddiau Heol ger y 'Comin' - £152.00
Dŵr Cymru – dŵr y caeau chwarae - £286.61 mewn credyd yn dilyn darlleniadau

Cytunwyd pob anfoneb am daliad.

**8: ADRODDIAD ARIANNOL**

| | |
|---|---|
| Cyfrif Cyfredol | £ 612.87 |
| Cyfrif Trysorydd | £23,002.87 |
| **Cyfanswm o** | **£23,613.74** |

Dosbarthwyd taenlen Cyllideb v Gwariant hyd 31/7/26 ac fe'i drafodwyd

**9: CYNLLUNIO:**
Dim

**10: CYTUNDEB CYFLOGAETH NEWYDD**
Roedd Cymdeithas Cenedlaethol Cynghorau Lleol wedi danfon cytundeb cyflogaeth newydd i'w fabwysiadu. Derbyniwyd y cytundeb Newydd ac fe'I arwyddwyd gan y Cadeirydd ac y clerc.

**11. Unrhyw fater arall:**
Trefnwyd cael cyfarfod ar y Maes Chwarae/Parc ar gyfer dydd Sadwrn 19/9/26 am 10.00 i drafod cynnal a chadw.
Roedd y gwifren BT dal yn gorwedd ar y clawdd ac ar y ietau ger Blaenffynnon. Byddai'r clerc yn cysylltu gyda BT eto.
Gofynwyd i'r clerc ymgeisio am goed o'r Ymddiriedolaeth Coed.
Yn dilyn y tywydd poeth ac y sychder, argymhellwyd fod y coed a oedd wedi eu colli oherwydd Gwywiad yr Ynn yn cael eu ail-plannu gyda rhai mwy gwydn.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fercher yr 4ydd o Dachwedd 2026 am 8:00pm yn Neuadd Gymunedol Llanwinio.**